# Cyflogau Staff y Cynulliad

*20/07/2010*

Annwyl

Cyfeiriaf at eich cais a ddaeth i law ar 24 Mai 2010, pan wnaethoch ofyn:

*'Sawl person a gyflogir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (gan gynnwys Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidogion eraill) ar gyflogau blynyddol cychwynnol o £30,000 neu fwy ym mhob categori (hyd at beth bynnag yw'r uchafswm)? Beth yw teitlau eu swyddi ac ystod gwirioneddol eu cyflogau?'*

Hefyd,

*'Pa ganran o fuddion eraill (cynllun pensiwn, treuliau, bonws, gwyliau, tâl salwch ac yn y blaen) a chostau y gellid ei ychwanegu at yr ystod benodol o gyflog a delir er mwyn adlewyrchu'r gwir gost i'r cyngor o gyflogi'r unigolyn hwnnw?'*

Ysgrifennais atoch ar 18 Mehefin yn ymateb i ail ran eich cais, ac rwyf nawr yn ymateb i'r rhan gyntaf (byddwch yn ymwybodol nad yw Prif Weinidog Cymru na'r Gweinidogion eraill, neu Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol, yn cael eu cyflogi gan y Cynulliad. Mae'r ymateb hwn yn ymwneud â staff y Cynulliad yn unig).

Mae eich cais yn cyfeirio at gyflogau deiliaid swyddi gan gyfeirio at deitlau swyddi, ac felly mae'n dod o dan y diffiniad o ddata personol yn Neddf Diogelu Data 1998 ("Data which relate to a living individual who can be identified... from those data, or from those data and other information which

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn • Tel: 029 20898889
Ffacs • Fax: 029 2082 1813
E-bost • Email: Kevin.willoughby@wales.gsi.gov.uk

is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller”). O ganlyniad, ni ddylid datgelu’r wybodaeth hon o dan adran 40(3)(a)(i) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, lle byddai datgelu’r wybodaeth hon yn mynd yn groes i unrhyw un o’r egwyddorion diogelu data. Caiff yr egwyddor sy’n berthnasol yn yr achos hwn ei amlinellu isod.

Mae’r egwyddor diogelu data gyntaf, yr amlinellir yn Atodlen 1 i Ddeddf Diogelu Data 1998, yn nodi:

> “Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met.”

Nid yw’r amodau eraill yn Atodlen 2 yn berthnasol heblaw paragraff 6, sy’n caniatáu prosesu data os yw:

> “The processing is necessary for the purposes of legitimate interests pursued by the data controller or by the third party or parties to whom the data are disclosed, except where the processing is unwarranted in any particular case by reason of prejudice to the rights and freedoms or legitimate interests of the data subject."

Rydym wedi ystyried yr amodau hyn yn ofalus, ac yn cytuno bod diddordeb cyhoeddus cyfiawn mewn datgelu’r graddfeydd cyflog ar gyfer Uwch-reolwyr y sefydliad (hynny yw, y rhai sydd mewn band cyflog E-1 ac uwch), o ystyried eu bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau, a hefyd o’u cymharu â swyddogaethau staff mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill yng Nghymru. Rydym hefyd o’r farn bod y diddordeb cyhoeddus hwn yn gorbwyso hawl yr unigolion mewn cwestiwn i breifatrwydd. Mae’r tabl isod yn amlinellu teitlau swyddi a bandiau cyflog yr holl staff ym mandiau cyflog S1 ac S2, a hefyd ym Mand Gweithredol E1 (sef dros £54,500).

| **Teitl swydd** | **Band cyflog** | **Ystod cyflog** | **FTE** |
|---|---|---|---|
| Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad | S-1 | £122,401 i £144,519 | 1 |
| Prif Swyddog Weithredu | S-2 | £95,407 i £117,423 | 1 |
| Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad | S-2 | £95,407 i £117,423 | 1 |
| Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol | S-2 | £95,407 i £117,423 | 1 |
| Ymgynghorydd Cyfansoddiadol – Penodiad Cyflogedig | | £75,000 i £80,000 | 0.8 |
| Pennaeth y Rhaglen Newid | E-1 | £54,500 i £66,800 | 1 |
| Pennaeth yr Uned Gorfforaethol | E-1 | £54,500 i £66,800 | 0.4 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Uwch-gynghorwyr Cyfreithiol (2) | E-1 | £54,500 i £66,800 | 1 |
| Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad | E-1 | £54,500 i £66,800 | 1 |
| Pennaeth yr Ystadau a TGCh | E-1 | £54,500 i £66,800 | 1 |
| Pennaeth Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau | E-1 | £54,500 i £66,800 | 1 |
| Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth | E-1 | £54,500 i £66,800 | 1 |
| Pennaeth y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi | E-1 | £54,500 i £66,800 | 1 |
| Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad | E-1 | £54,500 i £66,800 | 1 |
| Pennaeth Cysylltiadau Allanol | E-1 | £54,500 i £66,800 | 0.6 |

Caiff gwybodaeth am gyflogau'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr ei gyhoeddi'n rheolaidd yn y cyfrifon blynyddol. Gallwch weld yr adroddiad blynyddol a'r datganiad cyfrifon yn:
http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-nafw/abt-commission.htm

O ystyried natur swyddogaethau'r staff sydd o dan Fand Gweithredol 1, sydd yn aml yn unigryw ac yn anodd eu cymharu, yn ein barn ni, nid oes diddordeb cyhoeddus digon cyfiawn mewn datgelu'r data personol mewn cwestiwn i orbwyso hawl y gweithwyr hyn i breifatrwydd. Credwn hefyd nad yw amodau paragraff 6 yn cael eu bodloni yn yr achos hwn, felly ni ddylid datgelu'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r staff hyn.

Fodd bynnag, gallaf ddarparu'r bandiau cyflog a nifer y staff a gyflogir gan Gomisiwn y Cynulliad ymhob categori o dan E-1 yn y tabl a ganlyn (heb ddatgelu teitlau swyddi). Mae'r wybodaeth hon yn cyfeirio at yr holl staff sy'n ennill dros £30,000 (ac eithrio'r rhai sy'n dod o dan yr amodau yr amlinellwyd uchod).

| Band | Ystod y cyflog | Nifer yn y swydd |
|---|---|---|
| S-1 (Ban uwch) | £122,401 - £144,519 | 1 |
| S-2 (Band uwch) | £95,407 - £117,423 | 3 |
| S-3 (Band uwch) | £74,366 - £91,526 | 0 |
| E-1 (Band gweithredol) | £54,500 - £66,800 | 11 |
| E-2 (Band gweithredol) | £44,000 - £54,400 | 29 |
| M-1(Band Rheoli) | £34,000 - £42,000 | 52 |
| Penodiad cyflogedig | £75,000 - £80,000 | 1 |
| Cyfanswm | | 97 |

Fel y dywedais, caiff y cyfraddau cyflog cyfredol eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad yn:
http://www.cynulliadcymru.org/gethome/working/recruitment/get-working-working-comm-assembly-jobs/pay-scales.htm.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-

pub.htm. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn.

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi, neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon â chanlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire/Sir Gaer
SK9 5AF

Yn gywir

Kevin Willoughby
Rheolwr Mynediad at Wybodaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru